I S - D D E D D F W R I A E T H C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 128

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Clirffordd) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Gorffennaf 2026* |
| *Yn dod i rym* | *10 Gorffennaf 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), (2) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Clirffordd) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Gorffennaf 2026.

### Dehongli

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

W E L S H S U B O R D I N A T E L E G I S L A T I O N

# NWSI 2026 No. 128

# ROAD TRAFFIC

## The A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), (Llanwern, Newport) (Clearway) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 July 2026* |
| *Coming into force* | *10 July 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), and in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), (2) and 124(3)(b) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Gwent Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

### Title and coming into force

**1.** The title of this Order is the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) (Llanwern, Newport) (Clearway) Order 2026 and this Order comes into force on 10 July 2026.

### Interpretation

**2.** (1) In this Order—

(**1**) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw'r darn hwnnw o'r ffordd fynediad y bwriedir i gerbydau traffig dramwyo arni ond nad yw'n cynnwys cilfan;

ystyr "cilfan" ("*lay-by*") yw unrhyw ran o'r ffordd fynediad a fwriedir fel man aros i gerbydau sydd wedi ei leoli ar ymyl y ffordd fynediad a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o'r math a welir yn niagram 1010 o Ran 4 o Atodlen 11 i Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016(**1**);

ystyr "ffordd fynediad" ("*access road*") yw Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) fel y'i pennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, ac

ystyr "llain ymyl" ("*verge*") yw unrhyw ran o'r ffordd fynediad nad yw'n gerbytffordd nac yn gilfan.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar y darn o'r ffordd fynediad a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Exemptions**

**4.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn gymwys—

(a) i atal cerbyd sy'n aros ar unrhyw gerbytffordd cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r canlynol:

(i) unrhyw waith adeiladu neu waith dymchwel;

(ii) symud ymaith unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r ffordd fynediad neu osod, codi, cynnal a chadw, addasu neu atgyweirio ar y ffordd fynediad neu wrth ei hymyl unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**).

(**1**) O.S. 2016/362.

(**2**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

"access road" ("*ffordd fynediad*") means the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) as specified in the Schedule to this Order;

"carriageway" ("*cerbytffordd*") means that length of the access road which is intended for the passage of vehicular traffic but excludes a lay-by;

"lay-by" ("*cilfan*") means any area of the access road intended for the waiting of vehicles which is situated at the side of the access road bounded either wholly or partly by road markings of the type shown in diagram 1010 of Schedule 11, Part 4 to the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016(**1**), and

"verge" ("*llain ymyl*") means any part of the access road which is not a carriageway or lay-by.

**Prohibitions**

**3.** Except as provided by article 4, no person may cause or permit any vehicle to stop on the length of the access road specified in the Schedule to this Order except on the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

**Exemptions**

**4.** Nothing in article 3 applies—

(a) so as to prevent a vehicle waiting on any carriageway for so long as may be necessary to enable the vehicle to be used in connection with:

(i) any building operation or demolition;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the access road or the laying, erection, maintenance, alteration or repair in or near the access road of any sewer or of any main pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or of any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(**2**).

(b) to a vehicle being used for police, fire brigade or ambulance purposes,

(**1**) S.I.2016/362.

(**2**) 2003 c. 21 Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

(b) i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans,

(c) i gerbyd a ddefnyddir yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol, a

(d) i gerbyd sy'n stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio,

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain, neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

**5.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw lain ymyl sy'n union gyfagos i unrhyw ran o'r gerbytffordd a gynhwysir yn y darn o'r ffordd fynediad a bennir yn yr Atodlen at ddiben gwerthu nwyddau o'r cerbyd hwnnw.

**Dirymu**

**6.** Mae Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Dros Dro a Chlirffordd) 2024(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Gorffennaf 2026

*N Hunter*

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 2024 Rhif 1314 (Cy. 221).

(c) to a vehicle being used in the service of a local authority in pursuance of statutory powers or duties, and

(d) to a vehicle stopping when the person in control of it:

(i) is required by law to stop,

(ii) is obliged to stop to avoid an accident, or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside that person's control.

**5.** No person may cause or permit any vehicle to stop on any verge immediately adjacent to any part of the carriageway comprised in the length of the access road specified in the Schedule for the purpose of selling goods from that vehicle.

**Revocation**

**6.** The A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), (Llanwern, Newport) (Temporary Speed Limits and Clearway) Order 2024(**1**) is revoked.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 9 July 2026

*N Hunter*

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

(**1**) S.I. 2024 No. 1314 (W. 221).

## YR ATODLEN

### Darn o Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen’s Way), Llan-wern, Casnewydd

Y darn hwnnw o’r ffordd fynediad tua’r dwyrain a thua’r gorllewin sy’n ymestyn o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Baldwin Drive hyd at bwynt 50 metr i’r gorllewin o ganol Cyffordd Comin Broad Street, sef cyfanswm pellter o 5 cilometr.

## SCHEDULE

### Length of the A4810 Steelworks Access Road (Queen’s Way), Llanwern, Newport

That length of the eastbound and westbound access road that commences from the eastern side of the A4810 roundabout with Baldwin Drive to a point 50 metres west of the centre of the Broad Street Common Junction, a total distance of 5 kilometres.